Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
MEHEFIN 2008

DYDDIAD	Nos Fercher, 18fed Mehefin, 2008
AMSER	7yh
LLEOLIAD	Neuadd **RHOSTRYFAN**
AELODAU'N BRESENNOL	Jason Hunt (Cad), Tom Ellis, Gwilym L.Williams, Meurig Williams, Huw Williams, Elwyn Jones, Gwilym V.Thomas, Elin Evans, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Cyng. Aeron M.Jones Clerc: Bethan Williams

1. **Ymddiheuriadau**
   Nerys Evans, Jane Eryl Jones

2. **Croeso**
   Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

3. 1 **Datgan Buddiant**
   HW – cae chwarae Rhosgadfan

4. **Cadarnhau cofnodion**
   Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod gynhaliwyd ar y 14eg o Fai fel rhai cywir.

5. **Materion i'w trafod:**
   a. GVT – torri gwair yn cae chwarae Rhosgadfan. Cafwyd trafodaeth ynglyn â'r ffordd ymlaen efo'r broblem flynyddol, h.y. fod y gwair yn rhy hir i blant chwarae. Derbyniwyd nifer o gwynion gan bobl y pentref. Un gwyn benodol oedd fod y giât i'r cae wedi'i chloi. Nododd HW nad ydy'r giât erioed wedi cael ei chloi – mae tsiaen wedi'i roi o gwmpas y giât ond gellir ei godi dros y pilar a chael mynediad i'r cae. Nododd GLW fod wedi cael enw person sy'n fodlon mynd yno i dorri'r gwair. Nododd HW nad ydio'n meddwl y byddai'r person yma'n ei wneud am ddim, ac nad oes unrhyw arian gan y pwyllgor i dalu am wneud y gwaith. Awgrymodd nad oedd rhieni a phentrefwyr yn fodlon mynd i'r cae i wneud y gwaith. Nododd y clerc ei bod wedi ysgrifennu at y pwyllgor cae chwarae yn gofyn wrthynt wneud cais am arian gyda chopi o'u mantolen i'r cyngor, ond ni ddaeth cais i law. HW am drefnu cyfarfod o'r pwyllgor i geisio symud ymlaen ac i adrodd yn ôl i'r cyngor yr wythnos nesaf. Clerc i drefnu pwyllgor pellach yn dilyn argymhellion a ddaw o'r pwyllgor cae chwarae.
   b. MW – cerrig mân yn rhydd ar wyneb y ffordd o dan 'Rafon hen a thyllau yn y fordd i fyny am Bronallt. Clerc yn mynd i atgoffa Meirion Williams, Cyngor Gwynedd eto.
   c. JEJ – diffyg goleuadau y tu allan i Ganolfan Llanwnda
   d. JH – wedi derbyn cwyn fod llwybr Cae Coch angen sylw. Clerc wedi cerdded y llwybr, ac ni welodd fod problem.
   e. Arwydd sy'n dynodi 'anaddas i gerbydau mawr' ar Lôn Ty'n Clwt, Rhos Isaf wedi'i adnewyddu.

f. Lein Bryngwyn – copi o lythyr anfonwyd at gyfreithwyr George Morgan gan gyfreithiwr y Cyngor Sir yn awgrymu nad oes gan George Morgan hawliau ar y lein. Bwriedir felly barhau gyda'r trafodaethau efo Rheillfordd Eryri i greu llwybr cyhoeddus ar hyd y lein.

g. Materion godwyd gan AMJ efo Cyngor Gwynedd: 1. Ceisiadau Cynllunio: awyddus i beidio cael y ceisiadau cynllunio canlynol i'w penderfynu gan swyddogion dan hawliau dirprwyedig: Hafoty Ty Newydd, defnyddio tir i gerbydau 4 x 4 a thir ger Gorffwysfa, Rhosgadfan ar gyfer datlbygiad tai fforddiadwy; 2. croesffordd Ffrwd Cae Du – wedi derbyn ymateb yn nodi nad ydy'n fwriad gan Gyngor Gwynedd i greu 'lane' ychwanegol i'r chwith gan fod ffordd osgoi yn yr arfaeth – AMJ i bwyso eto o ystyried 5j isod; 3. arwyddion electroneg – trefnu fod swyddog diogelwch ffyrdd yn checio'r arwyddion yn fuan, ac wedyn, os bydd yr arwyddion yn gweithio, bydd angen talu amdanynt, ni fydd y cyngor sir yn cymryd camau cyfreithiol hyd nes bydd yr archwiliad wedi'i gwblhau; 4. arwyddion ar y ffordd ger cylchfan Y Goat – AMJ i bwyso eto ar Y Cynulliad i drefnu fod arwyddion yn dynodi Pwllheli a Chaernarfon ar y ffordd, ac i gael arwyddion sy'n nodi fod cerddwyr yn croesi'r ffordd osgoi; 5. giât cae chwarae Saron – bydd y gwaith hwn yn digwydd yn fuan; 6. gwaith lledu rhwng Rhostryfan a Rhosgadfan – AMJ wedi gwneud cais ar Gyngor Gwynedd i gael Dinesh i weithio fel prif beiriannydd ar y prosiect i geisio gwella'r sefyllfa.

h. Gohebiaeth rhwng Meirion Williams a'r clerc ynglyn â thorri gwrychoedd. Nodwyd fod angen i'r gweithwyr gael tystysgrif arbennig ar gyfer torri gwrychoedd. Clerc i holi'r cyngor am bris i wneud y gwaith.

i. Llythyr ddaeth drwy safle We Llanwnda yn gofyn am fanylion aelodaeth ac ati.

j. ARUP – cyfarfod wedi bod ar y 5ed o Fehefin – AMJ wedi mynychu'r cyfarfod ac yn nodi nad ydy'n debygol y bydd y gwaith ffordd osgoi yn cychwyn tan o leiaf 2014. Ymgynghoriad pellach yn gorfod digwydd. Adroddiad ARUP ar gael gan y clerc.

k. BT – cyfnod ymgynghorol ynglyn a chau ciosgs yn yr ardal – yn benodol ciosg ger y Goat a ciosg Rhostryfan. Os oes gan unrhyw un sylwadau i'w wneud, bydd angen eu gwneud cyn 8fed Awst. Aelodau'n teimlo nad oes digon o ddefnydd yn cael eu gwneud o'r ciosgs i gyfiawnhau eu gadael ar agor.

l. Llythyr yn cwyno am gyflwr cysgodfan fysiau Rhosgadfan. Penderfynu tynnu'r gysgodfan i lawr a chlirio'r safle.

m. Cwyn ynglyn â phlant a phobl ifanc yn crwydro tu ôl i dai Bro Gilbert, Rhostryfan – AMJ yn mynd ar ôl yr Adran Dai i geisio datrys y broblem. Clerc i gysylltu efo'r Heddlu i gadw golwg ar y sefyllfa.

n. Copi o lythyr anfonwyd gan Elwyn Vaughan, Cymad at Alun Ffred Jones, AS yn nodi nad oes bellach modd defnyddio arian WEFO i orffen gosod y gridiau yn y Fron a Carmel. Gobeithir y bydd modd i Gyngor Cefn Gwlad helpu.

o. Cafwyd cyfarfod ar safle camfa ger Tan y braich a Pen Muriau, Rhosgadfan rhwng John Griffiths, Aeron M.Jones, Gwilym V.Thomas a Neal Williams. Daethpwyd i'r canlyniad nad ydy'r gamfa yn addas i'r pwrpas ac ei bod yn groes i'r cynllun cynllunio gwreiddiol oedd yn nodi mai giât oedd i fod ar y safle. Clerc i ysgrifennu i Gyngor Gwynedd, Cymad ac i Alun Ffred Jones AS i nodi'r ffaith.

p. Cynnig wedi dod gerbron i gyfeillio Llanwnda/Llandwrog gyda Erdeven ger Carnac yn Lorient, Llydaw. Angen ymchwilio ymhellach.

q. Arwyddion stryd – AMJ am gael rhestr o arwyddion sydd angen eu newid neu hadnewyddu.
r. Ar hyn o bryd mae tâl yn cael ei godi am daflu deunydd megis gwelyau, rhewgelloedd ac yn y blaen. AMJ wedi gwneud cais i gael diddymu'r tâl i osgoi 'fly tipping'.

6. **Derbyn Adroddiadau:**

7. **Is-bwyllgorau:**

8. **Materion Ariannol**

Cyfri Cadw:	24,675.89
Cyfri Siec:	434.32
CYFANSWM	**25,110.21**

Taliadau:

Cyflog/costau clerc – mis Mehefin	395.15
Cyllid y Wlad (talwyd gormod o £150.14 llynedd – arian yn ôl oherwydd ein bod yn gwneud y taliadau diwedd blwyddyn ar-lein)	44.56
Wyn Williams	324.00
Siôn Owen	400.00

Eto i'w dalu: Cyngor Gwynedd – bil a rhybudd am yr arwyddion LED (dal yn ôl ar y taliad hyd nes bydd yr arwyddion wedi'u trwsio). 8918.89

Cais am nawdd – Childline – i'w drafod ym mis Hydref
Tystysgrif gwerthfawrogiad nawdd British Heart Foundation

Materion Cynllunio
CO8A/0348/24/CR + CO8A/0349/24/LL– Ty Hen, Llanwnda – newid defnydd o swyddfeydd i ddefnydd fel meithrinfa sefyledig gerllaw a defnydd mân werthu – eto mae gan yr aelodau gonsern am y fynedfa. Pryderus am y cais i newid defnydd ar gyfer mân werthu – nid ydynt yn teimlo fod y safle yn addas.

Dim gwrthwynebiad i'r canlynol
CO8A/0318/24/YA – Garth y Gro, Dinas – hysbysiad ymlaen llaw am benderfyniad am ddatblygiad amaethyddol neu goedwigaeth.

Eisoes wedi'u caniatau:
Codi sied amaethyddol – Cae Penrhos, Rhosgadfan
Codi sied amaethyddol – Parc Newydd, Rhosgadfan
Dymchwel modurdy presennol a chodi un newydd – Ty'n Rhosgadfan, Rhosgadfan

Gohebiaeth:

a. Cyfadran Adnoddau – sesiynau hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad Newydd – gwahoddiad i glercod a holl aelodau'r cyngor fynychu: 25.06.08 – Caernarfon; 30.06.08 – Pwllheli (sesiynau Cymraeg) neu 7.7.08 Caernarfon (sesiwn Saesneg). Canlynol yn mynd i fynychu: 30ain Mehefin – Tom Ellis, Bethan Williams, Elin Evans; Gorffennaf 7fed – Gwilym V.Thomas, Meurig Williams, Huw Williams, Gwilym L.Williams, Elwyn Jones a Jason Hunt.
b. Cyfadran yr Amgylchedd – gwarchod trefniadau i ddarparu gwasanaeth mewn argyfwng – ffliw bydeang. Clerc i drefnu is-bwyllgor mynwent i drafod trefniadau argyfwng.
c. Newyddlen Cyngor Gwynedd – adeiladu i'r dyfodol – gwasanaeth preswyl i bobl hŷn Gwynedd – clerc i'w anfon at Jane Eryl Jones.
d. Cyngor Cefn Gwlad Cymru – gwybodaeth am eu gwasanaeth
e. Un Llais Cymru – angen help ar stondin Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd
f. Cynulliad – cais am wybodaeth ynglyn ag unrhyw hysbysiadau cosb benodedig
g. Cyngor Iechyd Cymuned – strwythur newydd i'r GIG yng Nghymru – papur ymgynghori
h. Gwynedd ar y Cyd – gwahoddiad i fod yn rhan o'r grwp sy'n trafod y strategaeth gymunedol.
i. Ombwdsman Cymru – adroddiad blynyddol
j. Is-bwyllgor Cymunrodd Elizabeth Hughes – gwahoddiad i'r pwyllgor nesaf – 2.7.08 – Ystafell Glyder Fawr, Penrallt 5.15p.m.
k. Hywel Williams, AS – llythyr yn gofyn am gael dod i'n cyfarfod naill ai fis Medi neu Hydref – clerc i gysylltu i anfon gwahoddiad.
l. Cylchgronnau

9. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf:**

a. EE – dwr ar y ffordd yn Llanwnda
b. ElJ – 2 ddrych ger y siop a ger Ty Nant yn Rhostryfan angen eu hadnewyddu
c. Tanrallt, Rhostryfan – AMJ yn mynd i ymchwilio ymhellach ynglyn a'r olew sy'n cael ei gadw ar y safle
d. MW – torri gwair oddi fewn i bentref Rhosgadfan
e. NW – ffordd ger Lloches, Rhosgadfan wedi cychwyn dirywio, clerc i ymholi.
f. GLW – llwybr rhwng Rhandir Mwyn a Tyddyn Canol angen ei dorri
g. GLW – coed Brynglas angen eu torri
h. JH – arwydd Bro Gilbert yn cael ei guddio gan or-dyfiant
i. GVT – awgrymu anfon llythyr o ddiolch i Glyn Owen am ei waith, cytunodd yr aelodau ei fod wedi gwneud gwaith da iawn dros y blynyddoedd

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15